



Annwyl Rieni / Ofalwyr

## Dychwelyd i'r Ysgol

Fel y gwyddoch, mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi y bydd ysgolion Cymru yn ail agor eu drysau yn rhannol **ddydd Llun 29 Mehefin**. Deallwn y bydd y penderfyniad o yrru eich plentyn yn ôl i'r ysgol neu beidio, yn benderfyniad anodd i'w wneud. Hyderaf y bydd y wybodaeth a geir yn y llythyr hwn yn eich galluogi i wneud penderfyniad gwybodus. Rydym ar hyn o bryd yn llunio cynlluniau manwl ar gyfer y 4 wythnos y byddwn ar agor. Hoffwn eich sicrhau bod lles a diogelwch pob plentyn ac aelod o staff yn flaenllaw ym mhob cam a gymerir. Noder hefyd y bydd y ddarpariaeth addysgu a chefnogi ar lein yn parhau i ddisgyblion lle mae'u rhieni wedi nodi dymuniad i gadw'u plentyn/plant gartref.

Dyma amlinelliad o'r trefniadau rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau lles a diogelwch eich plentyn a'r staff:

### Ar ddechrau'r dydd

Gofynir i chi fesur tymheredd eich plentyn cyn iddo/iddi adael y cartref. Os yw'n 37.5°C neu uwch ni ddylech ei ddanfôn ef/hi nac unrhyw frodyr/chwiorydd i'r ysgol. Mae'n hanfodol nodi, os yw eich plentyn neu aelod arall o'r teulu'n arddangos symptomau o Covid-19 bod angen hunan-ynysu am 14 diwrnod, ac na ddylid danfôn unrhyw blentyn o'ch cartref i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd angen hysbysu'r ysgol ar unwaith os oes preswlydd yn eich cartref yn dangos symptomau. Dylid manteisio ar y drefn brofi genedlaethol i sicrhau cadarnhad os oes rhywun yn dioddef ac eto hysbysu'r ysgol o'r canlyniad. Bydd angen tystiolaeth arnom os ydych wedi derbyn canlyniad negyddol. Byddwn yn ymdrin a'r wybodaeth yma gyda sensitifrwydd a ddim yn datgelu'n gyhoeddus enw rhywun sy'n sal.

Wrth gyrraedd yr ysgol:

- bydd pob disgybl yn mynd at y fynedfa briodol – byddwch trwy lythyr/ebost wedi cael blaenrybudd o ba fynedfa fydd hon erbyn bydd yr ysgol yn agor. Bydd llinellau wedi'u gosod ar y llawr wrth y mynedfeydd, fel o fewn adeilad yr ysgol sy'n nodi pellter o 2 fetr – gofynir i ddisgyblion i ddefnyddio rhain i sicrhau'u bod yn sefyll mewn rhes dwy fetr oddi wrth ei gilydd wrth aros i gael mynediad
- bydd tymheredd pob plentyn yn cael ei gymryd fel bydd yn mynd mewn i'r adeilad. Os bydd tymheredd plentyn dros 37.5°C (ac ar ol ail-brawf tymheredd 10 munud yn ddiweddarach), bydd disgwyl i riant ddod i gasglu'r plentyn a'i frodyr/chwiorydd yn syth, ac fel nodwyd eisoes bydd rhaid i aelodau eraill y teulu hunanynysu am 14 diwrnod nes y byddant wedi mynd trwy'r broses "Profi, Olrhain, Gwarchod" yn llwyddiannus. Bydd yr ysgol angen tystiolaeth bod prawf negyddol wedi'i dderbyn.

## YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: [office@brohyddgen.powys.sch.uk](mailto:office@brohyddgen.powys.sch.uk)

Gwefan: [www.brohyddgen.cymru](http://www.brohyddgen.cymru)

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

## YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: [office@brohyddgen.powys.sch.uk](mailto:office@brohyddgen.powys.sch.uk)

Gwefan: [www.brohyddgen.cymru](http://www.brohyddgen.cymru)

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

- bydd pob disgybl yn defnyddio diheintydd ar eu dwylo wrth fynd mewn i'r adeilad
- bydd cofrestr yn cael ei chymryd o bob disgybl
- bydd pob disgybl yn mynd yn syth i'w ystafell ddysgu – byddwch wedi cael blaenrybudd o ba ystafell ddysgu fydd hon

### Ystafell Ynysu

Bydd ystafell ynysu ar gyfer disgyblion sy'n teimlo'n sâl. Disgwylir i un rhiant/gofalydd ddod i gasglu'r disgybl sâl (a'i f/brodyr a/neu chwiorydd) yn syth o'r ysgol wedi iddynt dderbyn galwad ffôn yn eu hysbysu o'r sefyllfa; disgwylir iddo/iddi fynd i'r man a nodir yn yr alwad ffôn er mwyn casglu'i b/phlentyn.

### Rheol 2 Fetr, Dosbarthiadau a'r Dysgu

Byddwn yn anelu i sicrhau bod mynychu'r ysgol yn brofiad buddiol i'ch plentyn/plant. Dylid pwysleisio bydd y disgyblion sydd yn dod i'r ysgol hefyd yn cyfuno hyn gyda gwaith a osodir i'w gwblhau gartref.

Byddwn yn dilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol. Bydd system un ffordd mewn lle ar y coridorau gyda marciau 2m yn amlwg lle y bydd rhaid i'r disgyblion a'r staff gadw atynt. Noder, os gwelwch yn dda, os na fydd plentyn yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, bydd yn rhaid iddo/iddi barhau i dderbyn addysg o'r cartref.

Bydd yr ysgol yn ail agor i un flwyddyn ysgol ar y tro am y bythefnos gyntaf. Bydd amserelen yn dod allan ddechrau'r wythnos nesaf ar ôl i ni orffen casglu gwybodaeth am pa staff sydd ar gael i weithio.

Wedi i ni dderbyn gwybodaeth am ba ddisgyblion fydd yn mynychu'r ysgol, byddwn yn danfon gwybodaeth bellach i chi am y fynedfa a'r ystafell ddysgu y bydd yn eu defnyddio.

Dylid nodi y bydd yr addysgu'n yr ysgol yn wahanol iawn i beth brofwyd yn flaenorol:

- Ni fydd modd rhannu offer
- Ni fydd gwaith yn cael ei farcio mewn llyfrau
- Bydd disgwyl i ddisgyblion aros yn eu seddi yn yr ystafell ddosbarth a benodwyd i bob disgybl i sicrhau ymhellhau o 2 fetr, ac ni fydd gwaith grwp yn gallu digwydd fel yn flaenorol
- Bydd athrawon yn symud o ddosbarth i ddosbarth, ac nid y disgyblion
- Lle bydd defnyddio ystafelloedd arbenigol yn digwydd e.e. Dylunio a Thechnoleg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, TGCh, bydd aelod o staff yn arwain y disgyblion i'r dosbarthiadau hyn a bydd rhaid cadw 2 fetr o bellter wrth symud
- Ni fydd gwersi Addysg Gorfforol yn cynnwys cyswllt corfforol
- Ni fydd gwasanaethau ysgol

## YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: [office@brohyddgen.powys.sch.uk](mailto:office@brohyddgen.powys.sch.uk)

Gwefan: [www.brohyddgen.cymru](http://www.brohyddgen.cymru)

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

### Gwisg

Yn sgil yr angen i olchi dillad wedi bod yn yr ysgol er mwyn sicrhau nad ydy'r haint yn cael ei gario rhwng yr ysgol, y gymuned a'r ysgol ni ddisgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol nes byddwch yn derbyn cyfarwyddyd i'r gwrthwyneb.

### Cinio a byrbryd amser egwyl

**NI** fydd y ffreutur yn gweini cinio ysgol **NA** bocs bwyd. Bydd rhaid i bob plentyn ddod â'i focs bwyd a'i snac ei hun - digon i bara'r diwrnod cyfan. Caiff y bocs bwyd eu cadw yn yr ystafell ddosbarth a bydd pawb yn bwyta eu pecyn bwyd yn eu hystafell ddosbarth neu y tu allan (os bydd y tywydd yn caniatáu). Ni fydd y ffynhonnau dŵr ar gael, felly bydd gofyn i bob plentyn ddod â'u potel ddŵr ei hun. Mae'r Awdurod Addysg yn datgan yn glir bod rhaid i bob plentyn fynd ag unrhyw fwyd sydd heb ei fwyta/deunydd pacio adref gydag ef/hi.

### Amser Cinio ac Egwyl

Ni fydd pawb yn cael amser egwyl a chinio ar yr un pryd. Bydd 4 man chwarae gwahanol gyda'r disgyblion o ddsbarthiadau gwahanol yn cael eu cadw ar wahân drwy gydol y dydd. Rhaid i'r disgyblion gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr oddi wrth ei gilydd ar y coridorau ac ar yr iard, a bydd methu gwneud hyn yn golygu na ellir caniatáu iddynt adael yr ystafell ddosbarth o gwbl amser egwyl a chinio ar wahan i fynd i'r toiled.

### Glanhau

Bydd ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cyffredin yn cael eu sychu'n lân yn rheolaidd gan lanhawyr fydd ar gael trwy'r dydd, a bydd yr ystafelloedd dosbarth yn cael eu glanhau'n drylwyr bob nos. Bydd diheintydd dwylo ar gael ymhob dosbarth ac wrth bob mynedfa – disgwylir i'r disgyblion ddefnyddio rhain bob tro byddant yn cyrraedd eu hystafell ddysgu.

### Toiledau a glendid

Mae golchi dwylo a chadw'r dwylo'n lân yn hanfodol. Lle nad yw golchi dwylo'n ymarferol, dylid defnyddio'r diheintydd dwylo.

- Dylid golchi dwylo am 20 eiliad gyda dwr cynnes a sebon. Am resymau glendid, un plentyn fydd yn mynd i'r toiled ar y tro o bob dosbarth, a bydd y toiledau'n cael eu glanhau'n gyson. Bydd aelod o staff yn sicrhau nad oes mwy nac un plentyn yn y toiledau ar y tro. Mae'n hanfodol bod pob plentyn yn golchi'i d/dwylo ar ôl bod yn y toiled
- Dylid glanhau/golchi dwylo cyn ac ar ol bwyta
- Os yw plentyn yn gwneud cyswllt ffisegol gydag unigolyn arall, neu gydag offer mae rhywun arall wedi'i ddefnyddio dylid golchi dwylo'n syth

## YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: [office@brohyddgen.powys.sch.uk](mailto:office@brohyddgen.powys.sch.uk)

Gwefan: [www.brohyddgen.cymru](http://www.brohyddgen.cymru)

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

- Os yw disgybl yn peswch neu disian, dylid gwneud hynny mewn i'w benelin, a golchi'i d/dwylo syth wedyn. Os yw disgybl yn chwythu'i drwyn, dylai'r hances fynd i'r bin, a dylid golchi d/dwylo'n syth.
- Ni ddylid cyffwrdd eich wyneb gyda'ch dwylo

### **Offer PPE**

Bydd yr ysgol yn darparu offer diogelu personol i staff. Bydd mygydau ar gael i ddisgyblion os y dymunwch iddynt eu gwisgo, neu gallwch chi gyflenwi mygydau iddynt eich hun.

### **Cludiant**

Dim ond nifer fach o ddisgyblion fydd yn gallu mynd ar bob bws, ac mae'r Cyngor wrthi'n cydweithio â'r cwmnïau bysiau. Bydd disgwyl i bob plentyn ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol ac eistedd 2 fetr oddi wrth eraill.

### **Hebrwng a Chasglu plant**

Dim ond un rhiant neu ofalwr fydd yn cael hebrwng plentyn i'r ysgol a chasglu plentyn o'r ysgol.

### **Dim Rhannu Offer**

Disgwylir i bob disgybl ddod ag offer ysgrifennu gydag ef/hi i'r ysgol sy'n cynnwys:

- pen du/glas tywyll
- pensil
- naddwr
- rwbiwr
- pren mesur
- pensiliau lliw

Ni fydd disgyblion yn cael rhannu offer gyda phlant eraill na'r staff. Bydd gan bob plentyn ei ddesg a chadair ei hun am y diwrnod, onibai bod athro/athrawes yn gofyn iddo/i symud i dderbyn ei addysg mewn ystafell lle mae offer arbenigol, neu'n yr awyr agored.

### **Arwyddion**

Bydd arwyddion clir o amgylch yr ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo, hylendid a chadw pellter cymdeithasol.

## YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: [office@brohyddgen.powys.sch.uk](mailto:office@brohyddgen.powys.sch.uk)

Gwefan: [www.brohyddgen.cymru](http://www.brohyddgen.cymru)

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A

### Yr Hwb

Bydd Hwb Gofal Plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol yn parhau i gynnig gofal i blant Gweithwyr Allweddol rhwng 8.30am - 4.30pm. Noder bydd yr Hwb ar gau 24-28 Mehefin er mwyn ein galluogi i baratoi ar gyfer ail-agor yr ysgol ar Ddydd Llun 29 Mehefin.

### Ymwelwyr i'r safle

Bwriedir siarad gyda rhieni'n ôl yr angen trwy sgysiau ffon. Ni ddylai rhiant/gofalydd ddod i safle'r ysgol i gasglu'i b/phlentyn yn ystod y dydd heb ffonio/ebostio ymlaen a threfnu lle i gasglu'r plentyn hwnnw. Ni fydd y dderbynfa ar agor fel arfer.

### Presenoldeb

Er mwyn cadarnhau'r trefniadau hyn a sicrhau lefelau staffio cywir, byddwn yn falch pe gallech gwblhau'r holiadur byr iawn ar wefan yr ysgol yn nodi naill ffordd neu'r llall: a fyddwch yn anfon eich plentyn/eich plant i'r ysgol ar y dyddiau a glustnodwyd ar ei gyfer/ eu cyfer, neu beidio. Caiff linc i'r holiadur ei anfon allan drwy gyfrwng neges destun. Gofynnwn yn garedig i chi wneud hyn erbyn **dydd Mercher 17 Mehefin** ar gyfer y pythefnos gyntaf ac eto erbyn **dydd Mercher 8 Gorffennaf** ar gyfer y pythefnos olaf. Bydd derbyn y wybodaeth yma gan bawb mor fuan â phosib yn caniatáu i ni fel ysgol gadarnhau'r trefniadau terfynol gyda chi mewn da bryd er mwyn i bawb fod yn gwbl hyderus o'r hyn sydd o'n blaenau cyn i ni ail agor ein drysau'n llawn.

Dylid pwysleisio os nad ydych yn nodi'ch bwriad i ddanfôn eich plentyn yn ôl i'r ysgol o 29 Mehefin ar yr holiadur yn ystod mis Gorffennaf mai derbyn addysg o gartref fydd ef/hi yn ystod y cyfnod hwn – hynny yw, ni fydd yn bosib trefnu iddo/iddi gael ei h/ychwanegu i nifer y disgyblion yn yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn wedi i'r trefniadau terfynol gael eu gosod mewn lle gennym.

Byddwn yn danfôn llythyr gyda threfniadau pellach maes o law os ydych yn cadarnhau'ch bwriad i ddanfôn eich plentyn i'r ysgol yn ystod y tymor hwn. Hyderaf y gallwn gydweithio yn hyn o beth er mwyn symud ymlaen o'r cyfnod heriol hwn yn llwyddiannus.

Yn gywir

Dafydd M B Jones

Pennaeth